

Penodi Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

Briff Penodi Mehefin 2019





Amgueddfa Cymru

Cefndir

Wedi'i sefydlu gan Siarter Brenhinol ym 1907, Amgueddfa Cymru yw sefydliad diwylliannol pwysicaf Cymru, ac un o'r amgueddfeydd mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r sefydliad yn geidwad ar gasgliad amrywiol sydd ag arwyddocâd rhyngwladol, ac mae'n arwain ym maes cyfranogiad diwylliannol ac addysgol.

Mae Amgueddfa Cymru yn gofalu am saith amgueddfa genedlaethol Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru; Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon; Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre; Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru, Caerllion; Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis; ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Mae gan Amgueddfa Cymru hefyd Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, ger Caerdydd.

Cyfanswm Cymorth Grant Llywodraeth Cymru i Amgueddfa Cymru yn 2016-17 oedd £21 miliwn. Mae'r Amgueddfa'n cyflogi dros 600 o staff, ac yn denu tua 1.8 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, cynnydd o 70% ers cyflwyno mynediad am ddim. Rydym yn derbyn tua 2 filiwn o ymweliadau â'n gwefan bob blwyddyn.

Mae dros 5 miliwn o eitemau unigol yn ein casgliadau, sy'n cynnwys celf a dylunio, hanes ac archaeoleg a'r gwyddorau naturiol.

Mae is-gwmni masnachol sy'n llwyr eiddo i Amgueddfa Cymru – Mentrau Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig (AOCC) – sydd â chyfarwyddwyr anweithredol a gyfetholwyd gydag arbenigedd perthnasol. Prif weithgareddau Mentrau AOCC Cyf yw gwerthiant yn siopau Amgueddfa Cymru, arlwy, parcio ceir, trwyddedu lluniau, llogi corfforaethol, elw trwy werthu neu fenthg arddangosfeydd, a hawliau ffilmio. Mae'r cwmni'n trosglwyddo'i elw i Amgueddfa Cymru fel Cymorth Rhodd.

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Amgueddfa Cymru gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr yn pennu cyfeiriad strategol y sefydliad ac yn sicrhau y caiff ei hadnoddau eu rheoli yn briodol.

Ein Gweledigaeth

Yn 2015 cytunodd Amgueddfa Cymru ar Weledigaeth newydd, "Ysbrydoli pobl, newid bywydau", i lywio holl weithgareddau yn y dyfodol. Ein pwrpas yw defnyddio ein hamgueddfeydd a'n casgliadau i ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles, i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd.

Hanfod ein gwaith yw bod diwylliant yn adnodd a gaiff ei greu gan bobl a chymunedau. Rydyn ni'n rhan o'r gymdeithas y daw ein casgliadau a'n hadnoddau ohoni, a chânt eu hadnewyddu yn barhaus drwy ein gwaith gyda'r cyhoedd. Mae ein casgliadau gwyddorau naturiol yn helpu i roi cyd-destun o fioamrywiaeth a geoamrywiaeth Cymru, ac yn amlygu lle Cymru o fewn y byd ehangach. Rydyn ni'n atebol i'n cenedl am ein defnydd o'r adnoddau hyn.

Rydyn ni wedi ymrwymo i bedwar peth er mwyn cyflawni'r Weledigaeth. Nod gwaith pob adran ac aelod o staff yw cyflawni'r ymrwymïadau hyn.

Ffynnu

- Gweithredu fel stiwardiaid ein treftadaeth ddiwylliannol a naturiol er lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.
- Datblygu, cynnal ac arallgyfeirio ein hadnoddau.
- Datblygu ein harlwy twristiaeth ddiwylliannol er mwyn cefnogi'r economi Gymreig.

Profiad

- Adeiladu a chynnal gofodau ffisegol a digidol croesawgar.
- Adrodd straeon ysbrydoledig trwy arddangosfeydd a digwyddiadau.

Dysgu


- Datblygu sgiliau ein staff a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.
- Hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o iechyd a llesiant.
- Hyrwyddo dysgu am oes a darparu cyfleoedd.

Cyfranogiad

- Datblygu cyweithiau a rhwydweithiau partner effeithiol a chynaliadwy.
- Cynnwys pobl a chymunedau yn ein gwaith.

Yr Uwch Dîm Arwain

Caiff Amgueddfa Cymru ei harwain gan Uwch Dîm Arwain (SLT) yn cynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol a phedwar Cyfarwyddwr Cyfadrn. Mae'r Fforwm Penaethiaid Adrannau, sy'n cynnwys rheolwyr adrannau yn ogystal â'r Uwch Dîm Arwain, yn cymeradwyo polisiau ac yn adolygu projectau a chynlluniau arwyddocaol.



Datblygiadau Diweddar

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae Amgueddfa Cymru wedi ymroi adnoddau ac amser staff sylweddol i ailddatblygiad gwerth £30 miliwn i Sain Ffagan i'w throï'n Amgueddfa Hanes Genedlaethol ar gyfer Cymru. Cafodd y project ei gwblhau yn hydref 2018 wrth i'r adeiladau hanesyddol ac orielau newydd agor.

Yn y cyfamser, mae gwaith wedi dechrau ar syniadau ar gyfer ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, ynghyd ag ailddatblygiad posibl Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion. Ar yr un pryd, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar ymarferoldeb Amgueddfa Genedlaethol Celf Gyfoes ac Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol.

Her allweddol i'r sefydliad fydd cynhyrchu incwm ychwanegol o ffynonellau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys ein gweithgareddau ymchwil, sy'n rhoi enw da rhyngwladol i'n sefydliad, gweithgareddau masnachol a chodi arian o ffynonellau cyhoeddus a phreifat.

Her Casgliadau ac Ymchwil

Mae'r Is-adran hon wedi llwyddo i sefydlu proffil uchel yng Nghymru a thu hwnt am ei chasgliadau sydd o safon ac amrediad arbennig. Mae llawer o'r casgliadau hanes natur a chelf yn Gymreig, ond mae gwrthrychau lu o bob cwr o'r byd hefyd. Diolch i'w rhaglen ryngwladol, sy'n cynnwys arddangosfa ddiweddar o dirluniau fu'n teithio drwy'r Unol Daleithiau, ac un arall o gelf Brydeinig a Ffrengig o 1816 i 1916 yn Japan, mae Amgueddfa Cymru wedi sefydlu proffil ac enw da rhyngwladol i'w chasgliadau.

Yr her gyntaf ar gyfer deiliad y swydd fydd parhau i alinio gwaith y Gyfadran gyda'r gwaith o gyflawni'r Weledigaeth a'r Cynllun Gweithredol. I wireddu'r bwriadau hyn, bydd y Gyfadran yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhaglenni orielau, arddangosfeydd ac addysg ehangach gan ddatblygu projectau sy'n gwneud cyfraniad cryf tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru ac yn dangos cyfraniad amgueddfeydd a'u gwaith mewn cymdeithas sifig.



Y RÔL

Yn Gyfrifol am

Bydd y person a benodir yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Bydd deiliad y swydd yn rhoi arweiniad rheolaethol a deallusol i'r Gyfadran Casgliadau ac Ymchwil, gan roi blaenoriaeth i'r gweithgareddau sy'n helpu i gyflawni Gweledigaeth Amgueddfa Cymru.

Bydd deiliad y swydd yn arwain ac yn rheoli Cyfadran o tua 120 o staff o 4 adran: Celf, Hanes ac Archaeoleg, Gwyddorau Naturiol a'r Gwasanaethau Casgliadau (gan gynnwys Cadwraeth). Bydd deiliad y swydd hefyd yn rheoli'r staff sy'n gyfrifol am brojectau ychwanegol sydd o fewn cylch gwaith y Gyfadran.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddatblygiadau allweddol sydd o fewn cylch gwaith y swydd, gan gynnwys:

- Storio casgliadau
- Gwella mynediad at gasgliadau
- Strategaeth Ymchwil a Chynllun Gweithredu
- Digideiddio'r casgliadau at ddefnydd y cyhoedd

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd sicrhau ei fod yn gwybod am y gwaith ymchwil diweddaraf ac arferion gorau'r sector amgueddfeydd a sectorau perthnasol eraill yn y Deyrnas Unedig, ac arwain y gwaith o roi'r arbenigedd hwnnw ar waith yn y Gyfadran.

Diben y Swydd

- Rhoi arweiniad strategol a rheolaethol i'r Gyfadran Casgliadau ac Ymchwil, gan roi blaenoriaeth i'r gweithgareddau sy'n helpu i gyflawni Gweledigaeth Amgueddfa Cymru ac a fydd yn rhoi'r budd mwyaf i bobl Cymru.
- Ysbrydoli Cyfadran fwy unedig, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.
- Bod yn bennaf gyfrifol am hygyrchedd, gofal, datblygiad a defnydd ein casgliadau, er budd y cyhoedd.
- Fel un o reolwyr uwch Amgueddfa Cymru, rhoi arweiniad strategol i'r Gyfadran Casgliadau ac Ymchwil a'r sefydliad ehangach, i gefnogi'r gwaith o gyflawni Gweledigaeth, Cynllun Gweithredol a rhaglen Amgueddfa Cymru.
- Bod yn bennaf gyfrifol am gasgliadau'r Gyfadran a chydweithio â chyfadranau eraill i sicrhau y caiff ethos cyfranogol project Sain Ffagan ei fabwysiadu er mwyn datblygu a dehongli'r casgliadau i'r dyfodol.
- Ar y cyd â chyfadranau eraill, sicrhau bod staff adrannau yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio a chreu rhaglenni, arddangosfeydd a gwasanaethau ar-lein.
- Dod o hyd i gyfleoedd arloesol a gwreiddiol ar gyfer datblygu a chynhyrchu incwm a sicrhau y caiff targedau incwm eu cyrraedd.
- Meithrin diwylliant sy'n canolbwyntio ar atebolrwydd a chyfrifoldeb, ac yn galluogi'r cyhoedd a'n cyfoedion i graffu ar ein gwaith.
- Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd sicrhau ei fod yn gwybod am y gwaith ymchwil diweddaraf ac arferion gorau'r sector amgueddfeydd a sectorau perthnasol eraill yn y Deyrnas Unedig, ac arwain y gwaith o roi'r arbenigedd hwnnw ar waith yn y Gyfadran.
- Rheoli adnoddau dynol ac ariannol y Gyfadran, gan sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion rheoli cyllid cyhoeddus ac arferion proffesiynol gorau.

- Bod yn aelod adeiladol ac arloesol o'r Uwch Dîm Arwain mewn partneriaeth â'r Cyfarwyddwyr eraill gan rannu'r cydgyfrifoldeb.
- Cynrychioli Amgueddfa Cymru drwy Gymru a thu hwnt, gan geisio codi proffil cyhoeddus ac enw da'r sefydliad.

Prif Gyfrifoldebau

Fel aelod allweddol o'r Uwch Dîm Arwain:

- Cyfrannu'n llawn at reoli Amgueddfa Cymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod pob un o'r swyddogaethau o fewn eich cylch gwaith yn gweithio'n gydlynol ac yn effeithiol o fewn strwythur matrices y corff er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion corfforaethol.
- Rhoi arweiniad strategol clir a chyfrannu'n sylweddol at ddatblygu a gweithredu'r Weledigaeth trwy argymhell, datblygu ac arwain (lle bo hynny'n briodol) strategaethau a pholisïau sy'n gweddu i nodau ac amcanion y corff. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu'n rhagweithiol at y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredol bob blwyddyn a sicrhau y caiff yr amcanion y cytunir arnynt eu gweithredu, eu monitro a'u gwerthuso trwy arwain a rheoli perfformiad yn effeithiol.
- Sicrhau rheolaeth gyson o'r safon uchaf, gan weithio ar y cyd â chydweithwyr o'r holl wahanol arbenigeddau er mwyn arwain yn arloesol ac yn greadigol ar yr amryw feysydd cyfrifoldeb, a hynny er mwyn sicrhau:
 - Y caiff y casgliadau eu diogelu drwyddi draw
 - Fod y casgliadau'n hygyrch i'r cyhoedd
 - Y caiff ein hamgueddfeydd eu marchnata'n effeithiol ac y caiff ein proffil ei gynnal
 - Fod ein cyfleusterau o'r safon uchaf.
- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i gefnogi Cynllun Iaith Gymraeg Amgueddfa Cymru. Cyfrannu at sicrhau y caiff y sefydliad ei gydnabod fel enghraifft o arferion da o ran defnydd y Gymraeg.
- Gosod targedau, monitro, gwerthuso, rheoli ac addasu er mwyn sicrhau cynnydd Amgueddfa Cymru yn unol â'r cynllun.
- Sicrhau y caiff adnoddau ariannol eu dyrannu'n briodol a'u defnyddio'n effeithiol o fewn y Cynllun Gweithredol a chyllidebau. Rheoli a monitro cyllidebau a chynllunio ariannol er mwyn cyd-fynd â gweithdrefnau rheoliadol sy'n berthnasol i'r sefydliad, yn benodol y rhai a amlinellir yn y cytundeb Fframwaith.
- Bod yn bennaf gyfrifol am gynllunio a rheoli staff yn unol â Strategaeth Adnoddau Dynol Amgueddfa Cymru. Bod yn ffynhonnell arweiniad, ysgogiad a datblygiad yn ogystal â sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol eu defnyddio gan staff y Gyfadran Gyllid ac Adnoddau Corfforaethol.
- Cynrychioli Amgueddfa Cymru yng Nghymru a thu hwnt, gan geisio codi proffil cyhoeddus y sefydliad, cydweithio a sefydlu perthynas waith effeithiol gydag amrediad eang o randdeiliaid allanol priodol.
- Sicrhau y caiff cyfleoedd codi arian eu cynyddu drwy rwydweithio, cyflwyno a chydweithio â noddwyr posibl.
- Cydweithio â'r Archwilywyr Mewnol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.
- Cefnogi gwaith y Swyddogion Anrhydeddus trwy roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau yn yr amgylchedd allanol ehangach a all effeithio ar y corff a'i weithgarwch.
- Cyfrannu mewn ffyrdd eraill at amcanion cyffredinol Amgueddfa Cymru yn ôl cyfarwyddiadau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Fel Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

- Bod â chyfrifoldeb cyffredinol dros gasgliadau Amgueddfa Cymru, gan gydweithio gyda chyfadranau eraill i hyrwyddo gweithio ar draws cyfadranau, a sicrhau bod casgliadau Amgueddfa Cymru wedi'u datblygu, ymchwilio a'u rheoli'n effeithiol.
- Arwain wrth ddatblygu a gweithredu polisïau yn ymwneud â'r casgliadau ac ymchwil.
- Sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â chynulleidfaoedd amrywiol ynghylch Nodau ac Amcanion yr Amgueddfa, a sicrhau bod gwasanaethau'r Gyfadran yn ystyrlon ac yn hygyrch i bawb.
- Arwain y gwaith o gyflwyno'r Strategaeth Ymchwil a'r Cynllun Gweithredu, gan sicrhau bod projectau ymchwil yn cefnogi'r Weledigaeth.
- Gosod targedau a chyflawni'r Strategaeth Ddigiddeiddio er mwyn gwella mynediad y cyhoedd at ddata'r casgliadau a gwybodaeth gysylltiedig, gan gydweithio â Chyfarwyddwyr eraill.
- Ysbrydoli a chyfarwyddo newid o fewn adrannau curadurol ac ymchwil Amgueddfa Cymru i feithrin diwylliant sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.
- Chwilio am gyfleoedd arloesol a gwreiddiol i gynhyrchu incwm i Amgueddfa Cymru, gan weithio'n agos gyda'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Datblygu.
- Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwyr eraill i sicrhau y caiff rhaglenni addysg, arddangosfeydd a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfranogi eu cynllunio a'u cynnal yn effeithiol.
- Rheoli'r gyllideb caffael a chydlynw ceisiadau am gyllid allanol.

Corfforaethol

- Ymroi yn llawn i gefnogi egwyddorion cyfle cyfartal fel yr amlinellir yn Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y sefydliad a'u gweithredu.
- Gweithredu a chynnal gofynion Iechyd a Diogelwch ar draws pob maes ac adrodd ar unrhyw bryderon, cynnal asesiadau risg a rhoi systemau diogel ar waith.
- Sicrhau bod cynlluniau adfer ar ôl trychineb yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel bod Amgueddfa Cymru yn gallu ymateb yn effeithiol i argyfwng.
- Fel rhan o'ch telerau cyflogaeth, efallai y gofynnir i chi wneud dyletswyddau eraill a/neu weithio oriau eraill fel sy'n rhesymol er mwyn cyflenwi gwasanaeth yr Amgueddfa i'r cyhoedd, yn unol â'ch gradd neu'ch lefel cyfrifoldeb cyffredinol o fewn y sefydliad.

Canlyniadau

- Mae'r Gyfadran Casgliadau ac Ymchwil yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni Gweledigaeth Amgueddfa Cymru.
- Mae gan staff y Gyfadran y wybodaeth a'r sgiliau cywir i ddarparu profiad ardderchog i'r ymwelydd.
- Caiff diwylliant o gydweithio ei fabwysiadu er mwyn sicrhau gwasanaethau ystwyth, atebol, sy'n canolbwyntio ar y canlyniad, yn unol â Gweledigaeth Amgueddfa Cymru a disgwyliadau newidiol profiad Amgueddfa Cymru.
- Mae perthynas gref wedi'i ffurfio a'i chynnal yn fewnol ac yn allanol er mwyn darparu gwasanaethau ardderchog.



Manyleb y Person

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos ei fod yn meddu ar y nodweddion canlynol (gweler y "Canllawiau Recriwtio" am gyngor ar sut i lenwi'r ffurflen gais):

Hanfodol	Dymunol
Gwybodaeth Ofynnol	
Yr wybodaeth ddiweddaraf parthed meddwl ac arfer amgueddfaol presennol. Y gallu i ddehongli a defnyddio'r wybodaeth hon yn sail i lunio strategaethau a pholisiau.	Dealltwriaeth o sefyllfa wleidyddol Cymru a'r berthynas â Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.
Yn frwd dros waith, nodau ac amcanion Amgueddfa Cymru ac yn gallu uniaethu â hanes a threftadaeth Cymru.	
Dealltwriaeth o gynulleidfaoedd amgueddfa yng nghydestun cadwraeth a dethol, gofal, cadwraeth, arddangos a dehongli gwrthrychau.	

Hanfodol	Dymunol
Profiad Gofynnol	
Profiad llwyddiannus o reoli ymchwil, ymgysylltu cyhoeddus a rheoli casgliadau ar lefel uwch.	
Profiad llwyddiannus o reoli ar lefel uwch, a'r gallu i arwain timau amlddisgyblaethol, ysgogi a datblygu staff, rheoli cyllidebau sylweddol a chyflawni projectau.	
Y gallu i lunio strategaeth, ei chyfleu i eraill a'i rhoi ar waith, ac arwain ac ysbrydoli tîm i gyflawni amcanion strategol.	
Cymwysterau Academaidd / Safon Addysg	
Cymwysterau yn ymwneud â gwaith y swydd, neu brofiad o'r un safon neu gydnabyddiaeth.	Cymhwyster hyfforddi a mentora neu brofiad cyfwerth.
Hyfforddiant rheoli neu brofiad cyfwerth.	Cymhwyster mewn rheoli project (e.e. Prince2, Agile)
Sgiliau Gofynnol	
Y gallu i feddwl yn strategol a chyfrannu at ddatblygu cynlluniau a pholisïau strategol, a'r gallu i'w troi yn ganlyniadau go iawn.	Mae Amgueddfa Cymru'n cefnogi dysgwyr Cymraeg ar bob lefel. Nid yw medru'r Gymraeg yn rhugl yn hanfodol ar gyfer y swydd hon ond byddai gallu cyfathrebu'n Gymraeg neu barodrwydd i ddysgu o fantais.
Sgiliau rhyngpersonol ardderchog, gan gynnwys y gallu i ddylanwadu ac ysbrydoli, a chyfleu cyfeiriad strategol a gweithredol i staff a rhanddeiliaid ar bob lefel.	
Tystiolaeth o sgiliau rheoli newid rhagorol, a llwyddiant sylweddol a pharhaus o wella perfformiad.	
Ffactorau Personol Gofynnol	
Dygn, gwydn a dewr, a'r gallu i weithio'n gyflym.	
Dealltwriaeth o gyfraniad gwaith y Gyfadran at gyflawni strategaethau llywodraethol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	
Dealltwriaeth o egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth parthed gwaith Amgueddfa Cymru a'r gallu i'w rhoi ar waith.	

Amodau a Thelerau

Mae hon yn rôl barhaol gyda Amgueddfa Cymru. Bydd Amgueddfa Cymru yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr ar sail rhannu swydd.

Tâl: Gradd I £64,365.96 - £75,477.15 (codiad cyflog yn yr arfaeth), yn ogystal â buddion.

Sut i Wneud Cais:

Mae Saxton Bampfylde Cyf yn gweithio fel ymgynghorydd asiantaeth gyflogaeth i Amgueddfa Cymru ar gyfer y swydd hon.

Dylai ymgeiswyr wneud cais am y swydd hon trwy ein gwefan ar www.saxbam.com/appointments, gan ddefnyddio'r cod **WACAYB**.

Cliciwch ar y botwm **'apply'** a dilynwch y cyfarwyddiadau i uwchlwytho CV a llythyr eglurhaol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd ar **ddydd Mawrth 20 Awst 2019**.

Hysbysiad data personol GDPR

Yn ôl canllawiau GDPR, dim ond gyda'ch cydsyniad datganedig chi y gallwn brosesu eich Data Personol Sensitif (tarddiad hil neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undebau llafur, data genetig, data biometrig, bywyd rhywiol, neu darddiad rhywiol). Byddwn yn gofyn i chi gwblhau ffurflen ganiatâd pan fyddwch yn ymgeisio. **Peidiwch** â chynnwys unrhyw Ddata Personol Sensitif o fewn eich CV (er y gallwch gynnwys data o'r fath yn eich llythyr eglurhaol os dymunwch). Cofiwch hefyd i beidio cynnwys manylion cyswllt eich canolwyr heb gael caniatâd ymlaen llaw ganddynt.

Ni fydd y ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal ar-lein yn cael ei rhannu ag unrhyw un sy'n rhan o asesu eich cais. Cwblhewch fel rhan o'r broses ymgeisio.